

# Yr unfed adroddiad ar bymtheg i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Hydref 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

**[www.senedd.cymru/SeneddSafonau](http://www.senedd.cymru/SeneddSafonau)**

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

**Senedd Cymru**

**Bae Caerdydd**

**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **[SeneddSafonau@senedd.cymru](mailto:SeneddSafonau@senedd.cymru)**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Yr unfed adroddiad ar bymtheg i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Hydref 2024



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.senedd.cymru/SeneddSafonau](http://www.senedd.cymru/SeneddSafonau)

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**  
**Hannah Blythyn AS**  
Llafur Cymru



**Mick Antoniw AS**  
Llafur Cymru



**Peredur Owen Griffiths AS**  
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**  
Ceidwadwyr Cymreig

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Mark Drakeford AS \***  
Llafur Cymru

\* Roedd Mark Drakeford yn aelod o'r Pwyllgor ar y pryd ond fe esgusododd ei hun o weithgareddau'r Pwyllgor, ac felly ni chymerodd ran yn y gwaith o ystyried yr adroddiad.

## Cynnwys

<b>1.</b>	<b>Cyflwyniad.....</b>	<b>5</b>
<b>2.</b>	<b>Ystyried y gŵyn .....</b>	<b>6</b>
<b>3.</b>	<b>Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor .....</b>	<b>7</b>



## 1. Cyflwyniad

**1.** Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") yn Rheol Sefydlog 22.<sup>1</sup> Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, rhaid i'r Pwyllgor:

*"mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau...ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymhell camau mewn perthynas â hi."*<sup>2</sup>

**2.** Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.23 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd ("y Weithdrefn")<sup>3</sup> ac mae'n ymwneud â chwyn a wnaed i'r Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd").

---

<sup>1</sup> Rheolau Sefydlog

<sup>2</sup> Rheol Sefydlog 22.2(i)

<sup>3</sup> Gweithdrefn y Senedd ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

---

## 2. Ystyried y gŵyn

- 3.** Daeth cwyn i law y Comisiynydd yn ymwneud ag ymddygiad Aelod mewn cyfarfod cyhoeddus. Roedd y gŵyn yn nodi bod yr Aelod wedi cyhuddo'r Achwynydd ar gam o fod wedi 'lledaenu celwyddau am [yr Aelod] ers blynyddoedd' a honnodd fod yr Achwynydd yn 'berson ffaidd'.
- 4.** Nododd yr Achwynydd ei farn na ddylai gofyn cwestiynau mewn cyfarfod cyhoeddus fod wedi arwain at gael ei alw'n berson ffaidd yn gyhoeddus a'i gyhuddo o ledaenu celwyddau.
- 5.** Gwnaeth y Comisiynydd y gŵyn yn dderbyniadwy gan ei fod yn fodlon y gallai'r ymddygiad honedig fod wedi digwydd ac, o'i brofi, y gallai fod yn gyfystyr â thorri rheolau dau a chwech o'r Cod Ymddygiad:

*Rheol 2 - Rhaid i Aelodau weithredu'n onest.*

*Rheol 6 - Ni chaiff Aelodau ymosod yn bersonol ar unrhyw un – mewn unrhyw ohebiaeth (naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, ar ffurf electronig neu drwy unrhyw gyfrwng arall) – mewn modd a fyddai'n cael ei ystyried yn ormodol neu'n ymosodol gan berson rhesymol a diduedd, gan ystyried y cyd-destun y gwnaed y sylwadau ynddo.*

- 6.** Cyfarfu'r Pwyllgor ar 23 Medi 2024 i ystyried adroddiad y Comisiynydd a dod i'w gasgliad mewn perthynas â'r gŵyn hon.
- 7.** Mae'r Pwyllgor wedi cynnwys y rhannau perthnasol o adroddiad y Comisiynydd yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau anhysbysrwydd y rhai sy'n ymwneud â'r gŵyn hon yn unol â'r Weithdrefn.
- 8.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am y gŵyn a thrafodaethau'r Pwyllgor wrth ddod i benderfyniad.
- 9.** Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Aelod dan sylw ac i'r Achwynydd.



### 3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor

- 10.** Bu'r Pwyllgor yn trafod a dorrodd yr Aelod Reol Sefydlog 22.2(i).
- 11.** Wrth drafod a fu achos o dorri'r Cod, adolygodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r Comisiynydd fel y'u nodir yn ei adroddiad.
- 12.** Ni fanteisiodd yr Aelod ar y cyfle i wneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'r Pwyllgor.
- 13.** Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ategol a ddarparwyd gan yr Achwynydd mewn perthynas â'r gŵyn hon.
- 14.** Roedd cefndir y gŵyn yn seiliedig ar weithredu cynllun i wella effeithlonrwydd ynni a dileu tlodi tanwydd, a chamau gweithredu yr Aelod i fynd i'r afael â phryderon ynglŷn â'r cynllun pan gododd problemau gyda'r gwaith a wnaed. Roedd canfyddiadau ffeithiol y Comisiynydd, a oedd yn berthnasol i benderfyniad y Pwyllgor, fel a ganlyn:
  1. Yn 2016 cyfarfu'r Aelod ag etholwr gwrywaidd a benywaidd yn ceisio ei gymorth mewn cysylltiad â safon wael y gwaith a wnaed ar eu cartrefi o dan y cynllun Arbed. Er bod yr etholwr benywaidd yn ddigynnwrf ac yn gwrando ar yr hyn a ddywedodd yr Aelod, roedd yr etholwr gwrywaidd yn sarhaus a chyhuddodd yr Aelod o fod yn gysylltiedig â llygredd o ran y Cynllun Arbed. Yn sgil y cyhuddiadau ffug hyn, cytunodd yr Aelod ac [Aelod o Senedd y DU] ar y ffordd orau o rannu cyfrifoldeb dros waith ar y cynllun Arbed. Cytunwyd y byddai'r Aelod o Senedd y DU yn ymdrin ag achosion unigol, tra byddai'r Aelod o'r Senedd yn cymryd cyfrifoldeb dros ymgysylltu â Llywodraeth Cymru.
  2. Yn dilyn y cytundeb hwnnw, cyfeiriwyd etholwyr a gysylltodd â'r Aelod ynghylch gwaith gwael ar eu cartref, gyda'u caniatâd, at [Aelod o Senedd y DU]. Yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae'r Aelod wedi dileu holl gofnodion y cysylltiadau hyn ag etholwyr.
  3. Trafododd [yr Aelod] y mater yn anffurfiol gyda'r Cyngor Bwrdeistref Sirol ac ar 25 Ionawr 2021 ysgrifennodd [yr Aelod] at Arweinydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn nodi bod ymchwiliad parhaus yr Ombwdsmon yn parhau, ond yn annog y Cyngor i fynd ar drywydd y cynnig hwn o gyllid ar frys, er mwyn i'r trigolion yr effeithiwyd arnynt gael eu cartrefi wedi'u hadfer i gyflwr da.

4. Bu [yr Aelod] hefyd yn trafod y cynllun adfer posibl gyda Llywodraeth Cymru. Cyfarfu [yr Aelod] â'r Gweinidog cyfrifol, ar 10 Mawrth 2021 ac ar 12 Ebrill 2021. Ar 26 Mai 2021 ysgrifennodd [yr Aelod] at y Gweinidog Newid Hinsawdd, yn gofyn am gefnogaeth i'r dull amlasiantaethol arfaethedig o adfer. Yn ddiweddarach gofynnodd [yr Aelod] am gyfarfod gyda [y Gweinidog] i drafod y mater. Parhaodd [yr Aelod] i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru.
5. Mewn sylw ym mis Rhagfyr 2020 awgrymodd yr Achwynydd fod yr Aelod yn rhoi buddiannau ei blaid o flaen buddiannau etholwyr, sef bod [yr Aelod] yn amddiffyn Cynghorwyr y Blaid Lafur sydd wedi bod yn rhan o'r sgandal hon ac nad oedd [yr Aelod] wedi gwneud dim i helpu'r rhai yr effeithiwyd arnynt yn andwyol gan y cynllun Arbed yn ystod yr wyth mlynedd blaenorol.
6. Ysgrifennodd yr Aelod at yr Achwynydd drannoeth yn nodi'n glir ei rwystredigaeth ynghylch yr oedi wrth unioni'r crefftwaith diffygiol ond yn gwrthod gwneud sylw pellach o ystyried yr ymchwiliad sy'n mynd rhagddo gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
7. Ymatebodd yr Achwynydd ar y cyfryngau cymdeithasol gan honni nad oedd cynghorwyr lleol, Aelodau o Senedd y DU nac Aelodau o Senedd Cymru, yr oedd yr Aelod yn un ohonynt, wedi cymryd camau i gynorthwyo trigolion yr effeithiwyd arnynt.
8. Mewn sylw ym mis Chwefror 2021 dywedodd yr Achwynydd y byddai'n fuan yn tynnu sylw at y dirmyg llwyr gan uwch-wleidyddion [Plaid Wleidyddol] a sut maent wedi trin y bobl y mae sgandal Arbed wedi effeithio arnynt.
9. Ym mis Ionawr 2021 cyflwynodd yr Achwynydd gais Rhyddid Gwybodaeth i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol ar gyfer chwe darn olaf o ohebiaeth gan yr Aelod at y Cyngor Bwrdeistref Sirol ynghylch y Cynllun Arbed. Yr unig ddogfen a ddarparwyd yn yr ymateb dyddiedig 19 Chwefror 2021 oedd neges e-bost gan yr Aelod at y Cynghorydd [enw] dyddiedig 25 Ionawr 2021
10. Ar 10 Mawrth 2021 ysgrifennodd yr Aelod at yr Achwynydd ac aelodau Grŵp Annibynwyr [Cyngor], gan gyfeirio at yr honiadau a'r haeriadau ar y cyfryngau cymdeithasol sydd nid yn unig yn ffeithiol anghywir ond a allai fod yn enllibus, a gofyn i'r sylwadau gael eu tynnu'n ôl a'u bod yn ymatal rhag cyhoeddi honiadau di-sail a ffeithiol anghywir.

11. Nid ymatebodd yr Achwynydd yn gwadu cyhoeddi sylwadau anghywir ac enllibus o bosibl am yr Aelod ac nid oedd [yr Achwynydd] ychwaith wedi ymatal â'r arfer.
12. Ar 18 Mawrth 2021, mewn ymateb i sylw gan [Aelod o Senedd y DU], ailadroddodd yr Achwynydd yr honiad nad oedd yr Aelod wedi gwneud dim i helpu'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan y cynllun Arbed.
13. Mewn sylw ar 23 Ebrill 2021, awgrymodd yr Achwynydd nad oedd yr Aelod wedi gwneud dim i helpu dioddefwyr Arbed ac eithrio anfon neges e-bost at y Cyngor Bwrdeistref Sirol ar 25 Ionawr 2021.
14. Mewn sylw ar 26 Ebrill 2021 dywedodd yr Achwynydd efallai y dylai'r Aelod fod yn helpu dioddefwyr y sgandal Arbed y mae wedi'u hanwybyddu ers blynyddoedd.
15. Ar 7 Mai 2021, mewn ymateb i sylw gan yr Aelod ar ei ail-ethol, cyhoeddodd yr Achwynydd y canlynol: *"Ask [the Member] about Arbed and the many residents who asked [the Member] for help from 2016. ask(sic) [the Member] when [the Member] sent [their] one and only email regarding this to scandal? Oh, I forgot it was you and dated 25/01/2021. [the Member]'s a disgrace."*
16. Mewn sylw ar 21 Awst 2021, dywedodd yr Achwynydd fod yr Aelod yn un o nifer o wleidyddion Llafur a oedd yn ymwybodol o sgandal Arbed yn [enw lle] ac sydd heb wneud dim i helpu trigolion rhag ofn datgelu eu cyd-Aelod Cabinet a gafodd y contract £315,000 o dan amgylchiadau annilys. Yn ôl yr Achwynydd, pan ofynnwyd i'r Aelod o'r Senedd am gymorth gan sawl trigolyn yn 2015/16 dewisodd eu hanwybyddu am dros bum mlynedd hyd nes iddo gael ei ddal allan ar sylw a wnaed ar Facebook, a datgelodd Rhyddid Gwybodaeth nad oedd wedi anfon un neges e-bost yn gofyn i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol wneud dim tan fis Ionawr 2021. Dywed fod trigolion [enw lle] yn dal i fyw mewn amodau ffaidd fwy nag wyth mlynedd yn ddiweddarach, wedi'u hanghofio gan y bobl sydd i fod i'w cynrychioli.
17. Ar 2 Medi 2021 anfonodd yr Achwynydd neges e-bost at aelod o staff yr Aelod yn gofyn a oedd yn wir bod yr Aelod wedi ymddiswyddo o'r Blaid Wleidyddol oherwydd yr ymateb gwarthus gan wleidyddion ar bob lefel i sgandal Arbed a'r tribiwnlys sydd i ddod yn ymwneud â'r Cyngorydd [enw].

18. Ar 7 Chwefror 2022, gan gyfeirio at drafodaeth gan y BBC ar y cynllun Arbed, cyhoeddodd yr Achwynydd: *"You missed the point I'm afraid...there has been a massive coverup by the [political party] led administration at CBC and the Senedd Member took 7 years to send [their] first email to CBC asking what was being done .#PartyBeforePeople"*.
19. Ar 22 Mawrth 2023 cyhoeddodd yr Achwynydd: *"[The Member] you really need to get this sorted before you runaway from it. It's a disgrace and it's what you the two senior [Political Party] politicians will always be remembered for."*
20. Y mis canlynol mewn ymateb i erthygl yn y [papur newydd lleol] cyhoeddodd yr Achwynydd: *"Your article isn't the complete truth [author name]. A CBC [ ] Cabinet member purloined the Arbed Contract(sic) with no paper trail or tender process and somehow was paid £315,000 by CBC. [The Councillor] went on to eventually cause damage to 104 properties and was facing sanctions for 13 breaches of the code of conduct. It's been covered up by [Political party] and CBC refuse to disclose the report which names people involved and will only release a summary of the report. One senior [Political party] politician who represents the area did absolutely nothing to help as he wanted to protect his comrade and his flawed [Political] Party. [The Member] paid them lip service for 7 years but didn't send one piece of correspondence asking CBC what was happening until 25/01/2021 and only after he had been found out!"*
21. Yn ogystal â'r sylwadau a nodir uchod, roedd nifer o sylwadau eraill o natur debyg gan yr Achwynydd yn ymwneud â'r cynllun Arbed cyn y cyfarfod ar 6 Hydref am y prosiect [ynni lleol]. Mae'r rhain wedi'u dileu ers hynny.
22. Yn 2021, cynigiodd [cwmni], adeiladu ffatri yn [lleoliad] i gynhyrchu, storio a chyflenwi hydrogen gwyrdd. Roedd y cynnig hwnnw wedi cael cryn wrthwynebiad yn lleol. Roedd gan y cynllun gost amcangyfrifedig o fwy na £30 miliwn.
23. Nid oedd unrhyw gysylltiad rhwng y cynllun Arbed a'r [cynnig hydrogen gwyrdd].

24. Ym mis Hydref 2023 cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn [lleoliad] i drafod y cynnig hydrogen gwyrdd. Roedd rhwng 30 a 40 o bobl yn bresennol, gyda'r nifer fwyaf ohonynt yn gwrthwynebu'r cynnig.
25. Ymhlith y rhai a oedd yn bresennol roedd yr Achwynydd a'r Aelod. Roedd yr Achwynydd bryd hynny, ac mae'n parhau i fod, yn gynghorydd ar gyfer ward [enw] y Cyngor Bwrdeistref Sirol a [swydd] y Cyngor hwnnw. Mae'r Achwynydd yn aelod o Grŵp Annibynnol o gynghorwyr, yr oedd nifer ohonynt hefyd yn bresennol yn y cyfarfod. Ni fynychodd yr Achwynydd hyd nes bod y cyfarfod wedi hen ddechrau.
26. Ar ôl cyflwyniad, derbyniodd y Cadeirydd, yr Aelod a Chynghorwyr [enw] a [enw], y ddau'n aelodau o'r Grŵp Annibynnol, wahoddiad y Cadeirydd i annerch y cyfarfod.
27. Tua diwedd anerchiad y Cynghorydd [enw] gofynnodd aelod o'r gynulleidfa nifer o gwestiynau i'r cynghorydd ac roedd yn ymddangos yn anfodlon derbyn atebion [y cynghorydd].
28. Roedd yr unigolyn hwnnw wedyn yn holi'r Aelod ond yn torri ar draws yn barhaus fel yr oedd yr Aelod yn ei ateb. Roedd yn rhaid i'r Aelod godi ei lais er mwyn cael ei glywed.
29. Cyrhaeddodd yr Achwynydd tra bod y cyfnewidiadau hyn rhwng yr holwr a'r Aelod yn digwydd ac nid oedd wedi clywed dim o anerchiad yr Aelod.
30. Roedd eraill yn bresennol bryd hynny, ond [gofynnwyd] cwestiynau i'r tri chynrychiolydd etholedig a oedd wedi siarad. Cyflwynwyd bron pob un o'r rhain i'r Aelod a'u hatebodd yn barchus.
31. Gofynnodd yr Achwynydd, ar ôl cyfeirio at y fenyw y cyfeiriwyd ati yng Nghanfyddiad 3 uchod, i'r Aelod a oedd [yr Aelod] yn cynrychioli ei Blaid neu'r bobl yr etholwyd [yr Aelod] i'w cynrychioli, ac ymatebodd yr Aelod gan ddweud ei fod yn cynrychioli'r bobl.
32. Yna dywedodd yr Achwynydd: *"I doubt very much the people or the victims of Arbed in [place] would think that right."*
33. Dywedodd yr Aelod mewn tŷn fod yr Achwynydd yn ystyried yn ymosodol: *"Now I know who you are ... this [complainant]'s been telling lies about me for years, [the complainant]'s a vile person."*

34. Tra yn y gŵyn roedd yr Achwynydd yn anghytuno â chael ei alw'n berson ffiائد, yn y cyfweiliad dywedodd [yr Achwynydd]: *"[the Member]'s entitled to [the Member's] opinion on what [the member] thinks of me but I will not accept [the member] calling me a liar because I am not" and "vile person' is fine, but I haven't been telling lies at all."*
35. Roedd y cyfnewid rhwng yr Achwynydd a'r Aelod, a barhaodd am rai munudau, yn tynnu sylw oddi wrth ddiben y cyfarfod. Llwyddodd y Cadeirydd yn y diwedd i ddod â'r cyfarfod yn ôl i'r agenda. Yna gadawodd yr Aelod y cyfarfod.

**15.** Canfu'r Comisiynydd ar sail y ffeithiau a sefydlwyd, mewn perthynas â rheol chwech ei fod yn fodlon:

*"... the Member did subject to Complainant to a personal attack by accusing [the complainant] of lying and being a vile person. I am not, however, satisfied that a reasonable and impartial person being aware of the context would consider that what the Member said was either excessive or abusive. In reaching that opinion I had regard to all the surrounding circumstances. Amongst these were the campaign of abuse, innuendo and half-truths waged by the Complainant against the Member for almost two years before the meeting at which the remarks were made. I also had regard to the fact that both the Member and the Complainant were politicians and as such enjoyed an enhanced degree of protection of their right to freedom of expression under Article 10 of ECHR. As the courts have made clear, politicians about whom comments are made are expected to have a thicker skin than others and to tolerate comments about them which if made about persons outside the political sphere would be unacceptable. "*

**16.** Roedd canfyddiadau ffeithiol y Comisiynydd yn nodi bod yr Achwynydd wedi cyhoeddi nifer o sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn gwneud honiadau yn erbyn yr Aelod er iddo gael gwybod gan yr Aelod eu bod yn ffeithiol anghywir ac o bosibl yn enllibus. Felly, mewn perthynas â rheol dau, canfu'r Comisiynydd:

*"... when he accused the Complainant of lying the Member believed that to be true. There was no element of moral turpitude. So even if it was the case that the Complainant's inaccurate comments about [the Member] were not strictly speaking lies, and I found it unnecessary to decide that matter,*

*they were false and describing them as 'lies' was, at worst, a slight exaggeration. As the courts have made clear that when considering comments made by politicians about matters in the political sphere "a degree of the ...exaggerated ... and aggressive, that would not be acceptable outside that context, is tolerated."*

Ar ôl ystyried y wybodaeth a oedd ar gael a'r holl sylwadau, cytunodd y Pwyllgor â chasgliad y Comisiynydd nad oedd y Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri.